

Gofynion hyfforddiant Iechyd a Hylendid

Pan fydd anifeiliaid hela gwyllt yn cael eu hela gyda'r bwriad o'u rhoi ar y farchnad, rhaid i o leiaf un aelod gweithgar o'r tîm hela fodloni'r gofynion hyfforddi.

Pan gaiff anifeiliaid hela gwyllt eu hela gyda'r bwriad o'u rhoi ar y farchnad, rhaid i o leiaf un aelod gweithredol o'r tîm hela fodloni'r gofynion hyfforddi – a nodir yn **Atodiad III, Pennod I, Adran IV** gan y rheolau hylendid penodol ar gyfer busnesau – sef bod yn 'berson hyfforddedig' â digon o wybodaeth i gynnal archwiliad cychwynnol o anifeiliaid hela gwyllt.

Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei ddarparu i foddhad yr awdurdod cymwys (yr ASB yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) a bydd yn cwmpasu'r meysydd canlynol o leiaf:

- anatomeg, ffisioleg ac ymddygiad arferol anifeiliaid hela gwyllt
- ymddygiad annormal a newidiadau patholegol mewn anifeiliaid hela gwyllt oherwydd afiechydon, halogiad amgylcheddol neu ffactorau eraill a allai effeithio ar iechyd pobl ar ôl bwyta'r cig
- rheolau hylendid a thechnegau cywir ar gyfer trin, cludo a diberfeddu anifeiliaid hela gwyllt ar ôl eu lladd
- deddfwriaeth a darpariaethau gweinyddol ar yr amodau o ran hylendid ac iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid sy'n llywodraethu rhoi anifeiliaid hela gwyllt ar y farchnad

Mae clefydau hysbysadwy yn glefydau anifeiliaid y mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i chi roi gwybod amdanynt i APHA, hyd yn oed os ydych ond yn amau bod clefyd ar anifail. Os ydych yn amau bod clefyd hysbysadwy ar anifail hela gwyllt, rhaid i chi gysylltu ag APHA. Gellir dod o hyd i wybodaeth am [glefydau hysbysadwy a manylion cyswllt](#) ar wefan GOV.UK.

Mae yna sefydliadau sy'n gallu darparu cymorth ar sut i ddod yn 'berson hyfforddedig'. Rydym yn argymhell y dylai unigolion sy'n dymuno dod yn 'berson hyfforddedig' wneud gwaith ymchwil wrth ddod o hyd i ddarparwr hyfforddiant addas.

Mae'n ofynnol i chi ddod o hyd i ddarparwr hyfforddiant sy'n trafod y meysydd a nodwyd uchod (fel yr amlinellir yn **Atodiad III, Pennod I, Adran IV** yn y rheolau hylendid penodol i fusnesau) ac sy'n cynnig elfen ymarferol fel rhan o'i raglen hyfforddi.